WG 35 ·5 ·247

# GALAREB

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. THOMAS JOHN,

## CILGERAN,

*Yr hwn a fu farw o'r Typhus Fever, Tachwedd* 28*ain*, 1862, *yn* 46*ain ml. oed. Bu yn pregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd* 23*ain o flynyddoedd. Dywedai ychydig cyn ei farwolaeth "fod arno chwant ymddatod, a bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw."*

---

O! MOR llawn yw'r byd 'wyf ynddo
  O flinderau croes a gwae,
Tòn ar ol y llall yn lluchio,
  Weithiau llanw, weithiau trai;
Heddyw'n llawen wrth gyfarfod
  A chyfeillion teg eu gwedd,
Fory'n wylo wedi'u colli
  Yn mhriddellau oer y bedd.

Cyn i'n llygaid braidd i sychu,
  Ar ol MORRIS* wylo gawn,
Wele rwygiad i'n ar rwygiad,
  Wermod i ni'n gwpan llawn;
Colli cyfaill hoff a chywir,
  Didwyll, duwiol, mawr ei ddawn,
Nid oedd neb yn fwy effeithiol,
  Yn cyhoeddi gwerth yr Iawn.

Nid oes meddwl, nid oes siarad,
  Ni wneir enwi THOMAS JOHN,
Heb fod hiraeth yn trywanu
  Dwys adgofion drwy fy mron;
Cawr oedd ddoe yn rhwygo'r creigiau,
  Heddyw'n wyw a gwan ei wedd,
Wedi'i rwymo yn ei amdo,
  Ac yn ddystaw yn ei fedd.

* Y Parch. W. Morris, Cilgeran.

WG 16 ·12 D

Cofir ei weddiau taerion,
  A'i gynghorion dyfnion dwys,
Gan ryw filoedd yn nhir Gwalia—
  Yntau'n dawel dan y gwys ;
Ni chaiff Llundain fawr na Lerpwl,
  Fyth ei wel'd na'i glywed mwy,
Gyda nerthoedd anorchfygol
  Yn dyrchafu marwol glwy'.

Gelwid ef yn fab y Daran,
  Teimlai'r dyrfa ef fel hyn,
Boanerges mawr Cilgeran
  Feddai ryw alluoedd syn ;
A pha ryfedd i fod Cymru
  Heddyw'n bruddaidd iawn ei bron,
Ar ol colli un o'i chedyrn,
  A'i gorenwog DOMAS JOHN.

Comed danllyd ddysglaer ydoedd,
  Yn chwyrnellu yn ei nerth,
Neu reiadrau'r Niagara,
  Dros glogwyni'r creigiau certh ;
Nerthol gronfeydd ei hyawdledd,
  Ddeuent weithiau'n ddiluw llawn,
Pan y traethai am drugaredd,
  Iesu Grist, y Groes, a'r Iawn.

Eryr ydoedd a ehedai
  Ar esgyll ei ddarfelydd cryf,
I aneddle'r Anweledig—
  Yno yr adeiniai'n hyf ;
Byw a wnai yn mhlith mawreddau,
  Treiddiau trwyddynt at ei Dduw,
Anadlai yn y byd tragwyddol,
  Tra yr ydoedd yma'n byw.

Enaid angel mawr a feddai,
Ac athrylith—wreiddiol un,
I neb arall ni thebygai,
Ond yn unig *iddo'i hun* ;
Thomas John oedd yn y palas,
Yn y bwth fel yn y llys,
Gan ei fawredd ef a'i urddas,
Pawb a bwyntient ato'u bys.

'Roedd yn meddu ar alluoedd,
A ysgydwent dref a gwlad,
Ac ysgubent fel corwyntoedd,
Y tyrfaoedd wrth ei dra'd ;
Difrifoldeb mawr a wisgai
Ei wynebpryd ar bob pryd,
Dan ryw ddwysion argraffiadau,
O'r anfarwol fythol fyd.

Weithiau'n iselderau'r ddaear,
Hesg gofidiau am ei ben,
Weithiau'n uchelderau'r angel,
Sydd wrth byrth y nefoedd wen ;
Ei enaid mawr oedd lawer adeg,
Yn y Pruddglwyf trwm ei aeth,
Fel hen long fawreddog, lwythog,
A fai'n gorwedd ar y traeth.

Ond pan ddeuai'r llanw dano,
Hardd y nofiai ar ei hynt,
Nef awelon yn ei hwyliau,
Chwareu wnai o flaen y gwynt;
Cludo meddylddrychau mawrion,
Ei bregethau wnelai'n rhwydd,
I borthladdoedd prydferth Seion,
A'i dadleni â mawr lwydd.

Yn y Gymdeithasfa clywid,
  Weithiau'i lais fel taran gref,
Yn ymysgwyd y tyrfaoedd,
  Fel rhyw genad ddoi o'r nef;
Weithiau clywid swn taranau
  Sina fel yn rhwygo'r nen,
Yn dystewi'n swn "Gorphenwyd"—
  Iesu'n marw ar y pren.

Weithiau taflai boeth belenau,
  I wersylloedd Babel Fawr,
Satan yntau a ymgiliai,
  Wel'd y caerau yn dod lawr,
Safai fel Cadfridog ëon,
  Dewr a ffyddlawn ar y ma's,
Calonogai weiniaid Seion,
  I ddal yn gryfion yn eu gras.

O! Gilgeran, O! Gilgeran,
  Collaist goron hardd dy fri,
Machlud wnaeth y seren harddaf,
  A fu yn dy wybren di,
Nid Cilgeran, na Sir Benfro,
  'N unig deimla'r golled hon,
Cymru heddyw geir yn wylo,
  Am ei mhab yn brudd ei bron.

Ffarwel! Ffarwel! gyfaill anwyl,
  Ow! i ti gael cynar fedd,
Ond yn addfed oe't yn disgwyl,
  Tŷ dy dad, a gwlad y wledd,
Cysegredig fo dy feddrod,
  Gwylied Engyl glân y fàn,
Nes daw udgorn yr Archangel,
  I'th alw'n gerub hardd i'r làn.

TEILO.

---

*Argraffwyd gan D. W. a G. JONES, Llandilo.*